

## EDWARDS, THOMAS ('Caerfallwch'; 1779 - 1858), geiriadurwr

**Enw:** Thomas Edwards  
**Ffugenw:** Caerfallwch  
**Dyddiad geni:** 1779  
**Dyddiad marw:** 1858  
**Priod:** Edwards (née Webster)  
**Priod:** Edwards (née Wynne)  
**Priod:** Margaret Edwards (née Jones)  
**Rhiant:** Margaret Edwards  
**Rhiant:** Richard Edwards  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** geiriadurwr  
**Maes gweithgaredd:** Ysgolheictod ac Ieithoedd  
**Awdur:** Henry Lewis

Ganwyd, mwy na thebyg yn y Felinganol, yn nhref-ddegwm Caerfallwch, ym mhlwyf Llaneanrgain (Northop), Sir y Fflint, yn 1779, a'i fedyddio yn Llaneanrgain 5 Mawrth 1780, mab i Richard a Margaret Edwards. Rhwymwyd ef yn 14 oed yn brentis i gyfrwywr yn yr Wyddgrug, ar ôl ychydig addysg mewn ysgol ramadegol yn Llaneanrgain. Câi gyfle yn nhy ei feistr i ddarlllen newyddiaduron a llyfrau Saesneg. Ar ddiwedd ei brentisiaeth cerddodd ef a chyfaill iddo i Lundain i geisio gwaith, ond bu raid dychwelyd adref ar draed dan gardota, heb gael gwaith. Yn 1800 neu 1801 priododd Margaret Jones, Trelyniâu, Helygen, ac â'r gynhygaeth a oedd ganddi hi cychwynnodd fusnes cyfrwywr yn Llaneanrgain, ond methu a wnaeth. Yn 1802 cafodd le fel ysgrifennydd mewn gwaith glo yn yr ardal. Wedi marw'i wraig ymbriododd yr ail waith â Miss Wynne, Llaneanrgain, yn 1803. Yn 1806 symudodd ef i swydd dan gwmni'r gwaith glo yn Llundain, ac yn 1815 cafodd swydd dan N. M. Rothschild, a ddaliodd hyd ddiwedd ei oes. Yn 1816 priododd ei drydedd wraig, Miss Webster o'r Fynachlog, Llaneanrgain. Teithiodd droeon i Ewrop dros Rothschild, ac yn 1830 bu dros ddau fis yn yr Almaen yn ymchwilio i annhrefn yng nghyfrifon rhai o'r pendefigion â'r cwmni. Derbyniodd £1,000 yn anrheg ganddynt. Bu farw yn Llundain, 4 Gorffennaf 1858, a'i gladdu ym mynwent Highgate.

Ymddiddorodd ar hyd ei oes yn yr iaith Gymraeg, ac mewn cerddoriaeth. Cyfrannodd lawer i'r cyfnodolion megis *Y Gwyllydydd*, *Seren Gomer*, *Goleuad Cymru*, *Cymro Llundain*, dan y ffugenwau 'T. ap Edwart ap Eurgain,' 'Zabulonun,' 'Caerfallwch.' Yn *Y Gwyllydydd* (1829-30) cyhoeddwyd 'Darlith ar Fwnai, etc.' ganddo, 'a draddodwyd ger gwydd Cymdeithas y Cymreigyddion yn Nghaerludd, Nos Iau, Gorphenaf 1af., 1830.' Cyfansoddai farddoniaeth yn null **Pughe** (gweler dwy gân yn *Ceinion Awen y Cymry*, 121-4). Ceir tonau o'i waith, er enghraifft yn *Seren Gomer*, v, 224; vi, 64. Ond ei lafur pennaf oedd ceisio cyfoethogi'r Gymraeg â geiriau newydd er mwyn gallu trin yn yr iaith yr agweddau newydd ar wybodaeth, mewn gwyddoniaeth yn arbennig. Yn 1845 cyhoeddodd lyfr, *Analysis of Welsh Orthography*. Dadansoddir yr iaith yn null **Pughe**; disgrifir treigladau cytseinol a chyfnewidiadau llafariad; eglurir defnydd ac ystyr rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid. Fe'i cyhoeddwyd drachefn yn ei brif waith, *Geirlyfr Saesoneg a Chymraeg, An English and Welsh Dictionary* (Holywell, Printed & published by P. M. Evans, MDCCCL). Mae yn hwn luoedd o eiriau a luniodd ef ei hun i gyfateb i dermau newydd yn y gwahanol wybodau yn Saesneg. Ymhnen can mlynedd ar ei ôl ceisir gwneud yr un peth gan bwyllgorau. Ymddengys mai 'Caerfallwch' ei hun a greodd y gair 'pwyllgor' ('from *pwyll*, deliberation; and *cor*, assembly, company').

Yr oedd 'Caerfallwch' yn un o'r aelodau o eglwys Jewin (Llundain) a fwrwyd allan gan awdurdodau'r Methodistiaid Calfinaidd am gefnogi rhyddfrefniad y Pabyddion.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Henry Lewis**, (1899 - 1968)

### Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdŷr 1867-70)*, i, 229-30

*Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889â€"96), ail arg., iv, 631 DE

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 281-2

Cofrestrî'r Eglwys yng Nghymru yn Ll.G.C.

Archifau LIGC: NLW MS 1577C: Miscellany

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 19509735

Wikidata: Q7789287

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Yn ddiwydwr  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government